Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Trwyddedu teledu lleol

Penderfyniad i beidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu rhai trwyddedau teledu lleol

---

Datganiad

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2018

Gair am y ddogfen hon

Fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar 20 Ebrill 2018 ynghylch ein penderfyniad dros dro i beidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu rhai trwyddedu teledu lleol ar gyfer 13 o ardaloedd penodol[1], neu ardaloedd amgen, lle nad oes trwydded wedi cael ei dyfarnu hyd yn hyn.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn cadarnhau ein penderfyniad dros dro. Rydym yn credu y byddai parhau i fynnu bod y rhwydwaith trawsyrru teledu lleol yn cael ei ymestyn i'r lleoliadau hyn neu i ardaloedd amgen, yn unol â'r bwriad blaenorol, yn cael effaith niweidiol ar hyfywedd economaidd y sector teledu lleol yn ei gyfanrwydd. Bydd y penderfyniad hwn yn rhyddhau Comux, y sawl sy'n gyfrifol am y seilwaith trawsyrru ar gyfer teledu lleol, o'i rwymedigaeth bresennol i adeiladu'r seilwaith trawsyrru yn y lleoliadau hyn.

[1] Bangor, Kidderminster, Bromsgrove, Stratford-upon-Avon, Barnstaple, Limavady, Derry-Londonderry, Inverness, Luton, Plymouth, Stoke on Trent, Caerloyw, Forth Valley.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol 1

2. Cefndir 2

3. Ymatebion i’r ymgynghoriad a phenderfyniad Ofcom 3

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Pan wnaethom sefydlu ein fframwaith ar gyfer trwyddedu teledu lleol yn 2012, fe ddywedom y byddem yn hysbysebu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau teledu lleol ym mhob un o'r lleoliadau lle mae'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y drwydded amlblecs lleol, Comux, wedi ymrwymo i adeiladu ei seilwaith trawsyrru. Lle nad oedd modd i ni drwyddedu gwasanaeth ar gyfer un o'r lleoliadau hyn, fe ddywedom y byddem yn ystyried hysbysebu trwydded ar gyfer lleoliad tebyg.

1.2 Ar hyn o bryd, mae 13 lleoliad lle mae gan Comux rwymedigaeth yn ei thrwydded i ymestyn ei seilwaith trawsyrru pe baem yn hysbysebu a dyfarnu trwydded ar gyfer gwasanaeth teledu lleol. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau ariannol sylweddol y mae'r sector teledu lleol yn eu hwynebu, fe ddaethom i'r casgliad dros dro na fyddai'n briodol hysbysebu trwyddedau teledu lleol yn yr ardaloedd hyn na gwneud Comux yn atebol i'r rhan hon o'i rwymedigaethau.

1.3 Yn unol â hynny, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar 20 Ebrill 2018 ynghylch ein penderfyniad dros dro, gan ofyn am sylwadau gan randdeiliaid ynglŷn â'n cynnig.

1.4 Cawsom naw ymateb, ac mae chwech ohonynt wedi cael eu cyhoeddi (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ar ein gwefan.

1.5 Ar ôl pwyso a mesur yr holl ymatebion yn ofalus, rydym wedi penderfynu ein bod am gadarnhau ein penderfyniad dros dro i beidio â hysbysebu neu ail-hysbysebu trwyddedau ar gyfer yr 13 lleoliad yma, neu ardaloedd amgen.

2. Cefndir

2.1 Yn 2013, dyfarnwyd y drwydded i Comux fod yn weithredwr amlblecs teledu lleol, sy'n gyfrifol am ddarparu seilwaith trawsyrru ar gyfer darlledu gwasanaethau teledu lleol.

2.2 Roedd yn ofynnol bod yr ymgeiswyr am y drwydded honno'n adeiladu rhwydwaith er mwyn galluogi gwasanaethau teledu lleol i gael eu darlledu mewn 21 lleoliad penodol, sef Cam 1. Gofynnwyd hefyd i ymgeiswyr ymrwymo i adeiladu rhagor o leoliadau (Cam 2), a'r ymgeiswyr fyddai'n cynnig nifer y lleoliadau a'r lleoliadau eu hunain. Ymrwymodd Comux i adeiladu hyd at 26 o safleoedd Cam 2, lle gallai Ofcom drwyddedu gwasanaeth teledu lleol.

2.3 Mae Ofcom wedi hysbysebu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau teledu lleol mewn 44 o leoliadau ac wedi trwyddedu gwasanaethau yn 34 o'r rhain (naill ai doedd dim ceisiadau neu doedd ymgeiswyr ddim yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol mewn 10 o'r lleoliadau). Fe wnaethom atal y broses o hysbysebu rhagor o drwyddedau teledu lleol dros dro yn 2015, gan aros i raglen o ddyraniadau addasu sbectrwm ledled Ewrop gael ei chwblhau.

2.4 Pan wnaethom sefydlu ein fframwaith ar gyfer trwyddedu teledu lleol yn 2012, fe ddywedom y byddem yn hysbysebu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau teledu lleol ym mhob un o'r lleoliadau lle mae'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y drwydded amlblecs lleol, Comux, wedi ymrwymo i adeiladu ei seilwaith trawsyrru. Lle nad oedd modd i ni drwyddedu gwasanaeth ar gyfer un o'r lleoliadau hyn, fe ddywedom y byddem yn ystyried hysbysebu trwydded ar gyfer lleoliad tebyg.

2.5 O ganlyniad i ymrwymiadau yn y broses ymgeisio, roedd rhwymedigaeth ar Comux i adeiladu seilwaith trawsyrru mewn 47 o leoliadau penodedig. O'r rhain, mae 13 lleoliad lle nad oes trwydded deledu leol wedi cael ei dyfarnu. Fodd bynnag, roedd ein dadansoddiad diweddar yn awgrymu y byddai parhau i fynnu bod Comux yn ymestyn y rhwydwaith trawsyrru teledu lleol i'r lleoliadau hyn, neu i ardaloedd amgen, yn unol â'r bwriad blaenorol, yn cael effaith niweidiol ar hyfywedd economaidd y sector teledu lleol yn ei gyfanrwydd. Felly, fe wnaethom benderfyniad i beidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu rhai trwyddedau teledu lleol dros dro ar gyfer y 13 ardal yma neu'r ardaloedd amgen, a gofyn am farn rhanddeiliaid mewn ymgynghoriad ar 20 Ebrill 2018.

3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniad Ofcom

Ymatebion i'r ymgynghoriad

3.1 Fe gawsom naw ymateb i'n hymgynghoriad. Roedd wyth ymateb gan sefydliadau a'r llall gan unigolyn.

3.2 Mae'r pwyntiau a wnaed yn yr ymatebion wedi'u crynhoi isod yn ôl maes pwnc, ynghyd â'n barn ni ar y pwyntiau hyn. Rydym wedyn yn dod i gasgliad drwy nodi ein penderfyniad terfynol ynghylch ein dull o hysbysebu neu ail-hysbysebu rhai trwyddedau teledu lleol.

Cytuno â'n penderfyniad dros dro

3.3 Roedd saith o'r ymatebwyr yn cytuno â'n penderfyniad dros dro. Fe wnaethant nodi amryw o resymau i gefnogi eu barn:

- Byddai trwyddedu rhagor o ardaloedd yn cael effaith ariannol niweidiol ar drwyddedigion teledu lleol presennol ac fe allai danseilio'r amlblecs a'r system genedlaethol ar gyfer dosbarthu refeniw ffrydio fideo i wasanaethau teledu lleol, sy'n ariannu'r holl ffioedd trawsyrru y mae'r gwasanaethau hynny'n eu hysgwyddo yng nghyswllt Comux .
- Byddai'r gost cyfalaf ar gyfer adeiladu'r seilwaith trawsyrru ychwanegol yn ormod o faich ar Comux i'w gynnal o ystyried nad yw cyllid grant y BBC ar gyfer pryniant cyfalaf y seilwaith trawsyrru ar gael mwyach.
- Y dybiaeth a wnaed gan Comux pan wnaeth gais am y drwydded amlblecs teledu lleol ac ymrwymo i adeiladu pob lleoliad oedd y byddai ganddo 11-12 mlynedd i adfer unrhyw fuddsoddiad angenrheidiol er mwyn lansio'r gwasanaethau. Nid yw'r rhagdybiaeth hon yn ddilys mwyach, gan mai dim ond tua saith mlynedd arall sydd ar ôl o drwydded Comux erbyn hyn.
- Yn benodol mewn perthynas â Stratford upon Avon, roedd un o'r ymatebwyr yn dadlau bod sianel ddigidol ar gael ar-lein sy'n adlewyrchu'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer teledu lleol, ac felly nad oes angen sianel teledu daearol digidol newydd.

Effaith ar ail-hysbysebu lleoliadau sy'n bodoli eisoes yn y dyfodol

3.4 Roedd un o'r ymatebwyr wedi mynegi pryder na ddylai'r polisi effeithio ar y broses o ail-hysbysebu unrhyw drwyddedau sydd eisoes wedi'u dyfarnu (h.y. dylai Ofcom ail-hysbysebu trwyddedau ar gyfer lleoliadau sydd eisoes wedi cael eu hadeiladu os, er enghraifft, bydd y trwyddedai presennol yn dewis ildio ei drwydded).

3.5 Roedd ein hymgynghoriad yn ymwneud â thrwyddedu gwasanaethau teledu yn yr 13 ardal sy'n weddill lle nad oes trwydded wedi'i dyfarnu. Os cafodd trwydded bresennol ei hildio neu ei diddymu, byddai Ofcom yn penderfynu p'un ai a ddylid ei hail-hysbysebu neu beidio ar sail pob achos yn unigol.

Sylwadau eraill ynghylch ein penderfyniad dros dro

3.6 Fe wnaeth dau o'r ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â lleoliadau penodol. Roedd un o blaid ail-hysbysebu trwydded ar gyfer ardal Bedford/Luton, a'r llall o blaid ail-hysbysebu trwydded ar gyfer Inverness a Forth Valley.

3.7 Fe wnaeth Local Local Local Ltd wahodd Ofcom i ail-hysbysebu trwydded ar gyfer ardal Luton/Bedford. Roedd yn cyfeirio at bartneriaeth a fyddai'n dod at ei gilydd i wneud cais am y drwydded ac at fodel busnes penodol, ac roedd yn dadlau bod Luton yn barod am wasanaeth teledu lleol i adlewyrchu buddiannau, grwpiau a chymunedau yn yr ardal ac y byddai hyn o fudd i ddefnyddwyr a dinasyddion.

3.8 Dywedodd yr ymatebydd fod tebygolrwydd rhesymol y byddai'r gwasanaeth yn economaidd ymarferol. Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn seiliedig ar gamsyniad fod Comux wedi cyllidebu ac wedi cael cyllid gan y BBC ar gyfer trosglwyddyddion ychwanegol at yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni hyd yma, ac y byddai'r gynulleidfa gyffredinol a geir drwy ychwanegu'r lleoliad hwn felly'n arwain at refeniw ychwanegol a fyddai o fudd i'r holl sector teledu lleol.

3.9 Mewn gwirionedd, mae Comux wedi cadarnhau gydag Ofcom bod cyllid gan Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y gwaith o adeiladu rhwydwaith wedi cael ei ryddhau i Comux mewn modd cynyddrannol, dim ond pan oedd gwasanaethau teledu lleol yn y lleoliadau perthnasol yn cael eu trwyddedu gan Ofcom. Felly, ni chafodd Comux gyllid o gwbl ar gyfer lleoliadau nad oeddent yn cael eu trwyddedu neu eu hadeiladu, hyd yn oed os oedd Comux wedi ymrwymo i wneud hynny yn ei gais.

3.10 Wedi dweud hynny, gall unrhyw ddarpar ddarparwr teledu lleol ofyn i Ofcom hysbysebu trwydded ar gyfer unrhyw ardal nad oes gwasanaeth teledu lleol yn ei gwasanaethu. Oherwydd yr effaith bosibl y gallai trwyddedu ardaloedd ychwanegol ei chael ar sefyllfa ariannol y sector teledu lleol yn gyffredinol, dim ond pe bai Comux yn ei gefnogi y byddem yn ystyried cais o'r fath, a phe bai digon o dystiolaeth yn cael ei darparu mewn perthynas â'r canlynol:

- dangos na fyddai dyfarnu'r drwydded yn cael effaith ariannol negyddol ar Comux;
- egluro sut bydd y gwaith o adeiladu'r seilwaith trawsyrru yn cael ei ariannu.

3.11 Yn yr un modd, gall trwyddedigon cyfredol chwilio am estyniadau i'w hardaloedd darlledu. Unwaith eto, mae'n debygol na fyddem ond yn ystyried ceisiadau o'r fath pe bai Comux yn eu cefnogi a phe bai tystiolaeth yn cael ei darparu i ddangos sut byddai modd ariannu'r estyniad heb gael effaith niweidiol ar Comux na'r gwasanaethau presennol.

3.12 Fe wnaeth y Scottish Broadcasting Company (SBC) argymell y dylid ail-hysbysebu'r drwydded ar gyfer Inverness a Forth Valley, a hynny ar sail y dybiaeth y byddai ateb amgen heb fod yn ganolog yng nghyswllt darlledu ac amlblecs ar gyfer gwasanaethau teledu lleol yn yr Alban yn ateb gwell na model canolog presennol Comux.

3.13 Nid yw SBC wedi darparu unrhyw wybodaeth ategol i egluro sut byddai'r cynnig yn cael ei ariannu. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, gall darpar ddarparwyr teledu lleol, gyda chymorth Comux, ofyn i Ofcom hysbysebu trwydded ar gyfer lleoliad penodol.

3.14 O ystyried sylwadau SBC ar drefniant yr amlblecs ei hun, mae Ofcom eisoes wedi ymgynghori ynghylch model yr amlblecs teledu lleol cyn dechrau trwyddedu teledu lleol. Daethom i'r casgliad yn ein datganiad polisi teledu lleol gwreiddiol y byddem yn hysbysebu un drwydded amlblecs ar gyfer teledu lleol.[2] Ar ôl hynny, fe wnaeth Ofcom wahodd ceisiadau ar gyfer y drwydded amlblecs leol mewn proses gystadleuol, ac asesu cynigion yr ymgeisydd yn erbyn y meini prawf statudol a dyletswyddau cyffredinol Ofcom. Canlyniad y broses hon oedd dyfarnu'r drwydded i Comux.[3] Nid yw Ofcom yn credu bod sail i amrywio cwmpas daearyddol yr amlblecs lleol.

Materion eraill a godwyd yn yr ymatebion

3.15 Fe wnaeth rhai ymatebwyr godi materion ynghylch ariannu'r sector teledu lleol. Fodd bynnag, nid yw Ofcom yn chwarae rhan yn y mecanweithiau cyllido a sefydlwyd gan y Llywodraeth ar gyfer y sector teledu lleol.

3.16 Fe wnaeth rhai ymatebwyr godi materion yn ymwneud â'r ymrwymiadau o ran rhaglenni a wnaed gan ymgeiswyr pan wnaethant gais an drwyddedau teledu lleol ac fel rhan o'r trwyddedau hynny. Nid yw ymrwymiadau o ran rhaglenni yng nghwmpas yr ymgynghoriad hwn. Byddem yn atgoffa unrhyw drwyddedigion L-DPTS sy'n dymuno gwneud cais am newid eu hymrwymiadau o ran rhaglenni eu bod yn gallu gwneud hynny drwy gyflwyno cais i Ofcom yn broadcast.licensing@ofcom.org.uk.

Penderfyniad Ofcom a'r camau nesaf

3.17 Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein penderfyniad dros dro i beidio â hysbysebu neu ail-hysbysebu trwyddedau teledu lleol ar gyfer y 13 lleoliad, neu leoliadau amgen, lle nad oes trwydded wedi'i dyfarnu hyd yn hyn. Dyma'r 13 lleoliad: Bangor, Kidderminster, Bromsgrove, Stratford-upon-Avon, Barnstaple, Limavady, Derry-Londonderry, Inverness, Luton (Bedford + Luton), Plymouth, Stoke on Trent, Caerloyw (Caerloyw + Malvern + Henffordd), Forth Valley. Mae'r penderfyniad hwn gan Ofcom yn rhyddhau Comux o'i rwymedigaeth i adeiladu'r seilwaith trawsyrru yn y lleoliadau hyn.

---

[2] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160702212358/http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/local-tv/statement. Trwyddedu Teledu Lleol – Datganiad. Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. 15/05/2012.

[3] Mae cofnod o'r penderfyniad hwn ar gael yma: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160702170009/http://licensing.ofcom.org.uk/tv-broadcast-licences/local/awards-mux/